**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Chwefror 2024

Annwyl Gadeirydd

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Cymru ynghylch y Bartneriaeth rhwng y DU a Rwanda. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i rannu barn Llywodraeth Cymru ynghylch y Cytuniad hwn a'r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) cysylltiedig.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi datgan dro ar ôl tro – a dyma yw ein barn o hyd – nad yw cynigion i gadw'n gaeth a symud ymaith bawb sy'n cyrraedd drwy ddulliau afreolaidd yn ymarferol nac yn foesegol. Rydym wedi ei gwneud yn glir bod angen i system effeithiol gydymffurfio â Chonfensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hefyd angen i system effeithiol gynnwys cytundebau dychwelyd effeithiol â gwledydd diogel lle y mae cysylltiadau yn bodoli, a llwybrau diogel a chyfreithlon digonol i'r DU.

Ers datblygu cynlluniau ar gyfer ymadael â'r UE, rydym wedi tynnu sylw Gweinidogion y DU at y sefyllfa yn sgil colli Rheoliad Dulyn III a chronfa ddata EURODAC. Roedd y systemau hyn yn galluogi'r DU i ddychwelyd unigolion i Aelod-wladwriaethau eraill lle'r oedd cysylltiadau yn bodoli. Mae masnachwyr a smyglwyr pobl yn gwybod na all y DU ddibynnu mwyach ar y cydweithio hwn ledled Ewrop sy'n gwneud y DU yn gyrchfan llawer mwy deniadol.

Er nad yw'r system fewnfudo wedi'i datganoli, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ddatganiad ysgrifenedig ym mis Cymru 2023 yn nodi ein barn ynghylch sut y gallai'r system weithio'n fwy effeithiol:
[Datganiad Ysgrifenedig: Llwybrau Diogel a Chyfreithiol i Geiswyr Lloches (31 Cymru 2023) | LLYW. Cymru]

Rydym wedi ystyried y Cytuniad rhwng y DU a Rwanda a'r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) ond rydym o'r farn bod cynnwys y ddau yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Nid ydym o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, rydym yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bryderus o hyd na all yr Ysgrifennydd Cartref ddatgan bod y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac y dylai dyfarniad y Goruchaf Lys ei gwneud yn glir a yw Rwanda yn ddiogel ai peidio.

Roeddem yn rhwystredig bod ewyllys Senedd Cymru wedi'i hanwybyddu pan gafodd gydsyniad deddfwriaethol ei atal mewn perthynas â Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023. Ein barn ni o hyd yw bod gan y darpariaethau a amlygwyd gennym yn y Deddfau hynny bwrpas deuol sy'n effeithio ar gymhwysedd y Senedd. Yn yr achosion hynny, nid ydym o'r farn bod Confensiwn Sewel wedi'i ddilyn. Mewn perthynas â'r Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) a'r cytundeb cysylltiedig, nid ydym o'r farn bod Confensiwn Sewel ar waith.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor wrth gynnal ei waith craffu.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**